



Canllaw Ymrestru Ar-lein - Paratoi ar gyfer Coleg 2021-22



Byddwch yn derbyn e-bost yn gofyn i chi fewngofnodi i'ch Cyfrif Coleg Gwent a chwblhau cam nesaf y broses ymrestru o'r enw 'Paratoi ar gyfer Coleg'.

Mae hyn yn rhan bwysig iawn o'r broses ac mae'n rhaid ei chyflawni cyn gynted â phosibl i sicrhau eich lle ar y cwrs

Mewngofnodi

1. Er mwyn mewngofnodi i'ch cyfrif, bydd angen i chi glicio'r ddolen yn yr e-bost.
2. Unwaith y byddwch wedi clicio arni, bydd yn mynd â chi i'r sgrin hon:

A screenshot of a Microsoft sign-in page. At the top left is the Microsoft logo. Below it is the text 'Sign in'. There is a text input field containing 'email@coleggwent.ac.uk'. Below the input field is a link that says 'Can't access your account?'. At the bottom of the sign-in area are two buttons: 'Back' (grey) and 'Next' (blue). Below the sign-in area is a grey box containing the text 'Welcome to Coleg Gwent'.

Os ydych yn **ddysgwr sy'n dychwelyd wnaeth astudio gyda ni'r llynedd**, bydd eich manylion mewngofnodi'r un peth â'r rhai yr oeddech yn eu defnyddio i fewngofnodi i systemau'r Coleg y llynedd.

Os ydych yn **ddysgwr newydd yn y coleg eleni**, bydd eich manylion mewngofnodi yr un peth â'r rhai a ddefnyddioch i dderbyn eich cynnig.

Os ydych wedi anghofio eich cyfrinair ac wedi cofrestru ar gyfer ein swyddogaeth ail-osod cyfrinair, gallwch newid y cyfrinair [yma](#)

Os oes angen unrhyw gymorth mewngofnodi arnoch, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth Ymrestru Ar-lein

Ffôn: 01495 333 010


E-bost: Onlineenrolment@coleggwent.ac.uk

Amseroedd agor y Ddesg Gymorth:

Dydd Llun - Dydd Gwener
Dydd Sadwrn - Dydd Sul

9am - 8pm
9am - 5pm

3. Wedi i chi fewngofnodi, fe welwch y sgrîn ganlynol fydd yn dangos y cwrs yr ydych wedi derbyn cynnig ar ei gyfer. Cliciwch y ddolen yn unol â'r isod.





Gwirio eich manylion

Mae 2 sgrîn i'w gwirio yn y rhan hon o'r enw 'Manylion personol' a 'Manylion pellach'.

Gwiriwch y manylion hyn yn ofalus!

Bydd rhai meysydd wedi cloi na fyddwch yn gallu eu diweddarau. Os oes angen newid unrhyw rai o'r rhain, e-bostiwch Onlineenrolment@colegwent.ac.uk

Os oes angen newid eich cyfeiriad, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n defnyddio'r swyddogaeth chwilio cyfeiriad:

Address Search

Enter postcode and click find then select your address from the list of results.

Type part of an address or postcode to search Address Search Results

Rhaid llenwi pob maes gyda * cyn y gallwch barhau

Ar ôl gwneud yn siŵr bod eich manylion yn gywir, cliciwch 'parhau'

Gwirio eich Cymwysterau Blaenorol

Does dim modd golygu'r sgrîn hon, felly os ydych yn sylweddoli ar rywbeth anghywir yn eich canlyniadau, gallwch uwchlwytho tystiolaeth o'r canlyniadau cywir yn ystod y cam nesaf

Uwchlwytho'ch Dogfennau

Mae'n bwysig iawn eich bod yn uwchlwytho'r dogfennau canlynol:

- Dull adnabod swyddogol â llun (megis pasbort neu drwydded yrru)
- Canlyniadau TGAU (os ydych yn aros i'r rhain gyrraedd, gallwch fewngofnodi eto ar unrhyw adeg i'w huwchlwytho ar ddiwrnod canlyniadau)
- Llythyr dyfarniad tocyn bws yr Awdurdod Lleol (os nad ydych wedi'i uwchlwytho eisoes)
- Eich Cytundeb Dysgu ar gyfer unrhyw grantiau (os yw'n berthnasol)
- Eich llythyr Yswiriant Gwladol

I wneud hyn:

1. Dewiswch y math o dystiolaeth berthnasol o'r gwymplen

Upload Evidence

You can upload evidence here. This could be in relation to your personal situation (e.g. copy of visa) or in relation to your course (e.g. copy of qualifications, course work, reference).

All items uploaded must be under 10mb and will be subject to our Privacy Policy. You can upload the following file types:

Word documents, Excel spreadsheets and images (.DOC; .DOCX; .XLS; .XLSX; .PDF; .TXT; .JPG; .GIF; .BMP; .TIFF; .PPT; .RTF; .PNG; .FPX; .PCD).

Evidence Type *

National Insurance Number
Exams Results
Bus Pass Letter from Local Authority
Grants Supporting Documentation
Employer Letter to Cover Fees
Waivers Supporting Documentation

2. Defnyddiwch y swyddogaeth bori, chwiliwch am y ffeil dystiolaeth berthnasol a chyflwynwch eich dystiolaeth drwy glicio'r botwm uwchlwytho

File(s) To Upload *

Datganiad Dysgwr

Mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr holl wybodaeth ar y dudalen hon ac yn ticio i gadarnhau eich bod yn deall ac yn cytuno.

Camau olaf

Diolch i chi am gwblhau'r cam paratoi ar gyfer y coleg.

Does dim rhaid i chi wneud unrhyw beth arall nawr nes i ni anfon e-bost atoch mewn ychydig wythnosau yn gofyn i chi fewngofnodi a thalu unrhyw ffioedd sy'n ddyledus.

Sylwer: efallai na fydd eich cofrestriad yn dangos yn eich cyfrif yn syth, ond bydd y cynnydd yn newid i hyn:

Dip L2 Beauty Therapy



Mae hyn yn cadarnhau eich bod wedi cofrestru.